

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANYNYS A GYNHALIWIYD AR NOS  
FAWRTH 13EG O FEDI 2016 YN YSGOL GYNRADD RHEWL AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Brynle Lloyd (Cadeirydd), Siân Davies, Gwyn Howatson, Ian Hession, Medwyn Jones, Mike Denman, Dewi Roberts a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Clwyd Thomas, Deryl Roberts ynghyd a'r Cyngorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry. Nodwyd fod Cyngorydd Clwyd Thomas yn yr Ysbyty a phenderfynwyd gyrru cerdyn Gwellhad Buan iddo.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 12fed o Orffennaf 2016 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Bwyllgor "Llanynys Community Playing Fields Association" am gyfraniad ariannol y Cyngor Cymuned a derbyniwyd adroddiad mi fydd penwythnos agoriadol estyniad y Pafiliwn yn Rhewl ar 28ain ar 29ain o Hydref 2016 a estynni'r gwahoddiad i'r aelodau'r Cyngor fod yn bresennol yn achlysur yr agoriad.

B. Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl am ymateb Cyngor Sir Ddinbych am faterion ffyrdd y Gymuned a thrafodwyd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor.

C. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi gosod bin ysbwriel ar Ffordd yr Orsaf yn Rhewl.

D. Penderfynwyd yr Aelodau i'r Clerc gyrru llythyr o ddiolch at Mr Arfon Parry am drwsio'r fainc gyhoeddus wrth y Drivers Arms yn Rhewl.

4. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £6,380.00.

B. Derbyniwyd ail ran o'r Precept am 2016/17 - £2,656.00.

C. Taliadau:-

1. Cyngor Sir Ddinbych am bin ysbwriel - £472.48.

2. Mr Arfon Parry am ddeunyddiau i'r fainc gyhoeddus - £46.45.

3. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 30ain o Fedi 2016 - £400.00.

4. PAYE am y chwarter yn diweddu 30ain o Fedi 2016 - £100.00.

D. Penderfynwyd yr Aelodau beidio â mynychu'r Gynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru ar 1af Hydref 2016.

E. Rhoddwyd yr Aelodau caniatâd i'r Clerc prynu cyfeirlyfrau Cyngorau Lleol gan yr SLCC - £120.76.

5. MATERION CYNLLUNIO.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Estyniad deulawr i ochr yr annedd ac estyniad un llawr yn y cefn yn 21 Cilgwyn, Rhewl.

2. Codi adeilad storio ar wahân mewn cysylltiad â'r annedd yn Rhydycilgwyn, Rhewl.

3. Gwaith i 10 coed o fewn y Grŵp G1 Gorchymyn Diogelu Coed 1991 ar dir yn Rhyd-y-Byll, Rhewl.

4. Codi estyniad porth ar y tu blaen ac estyniad un llawr ar ochr yr annedd ym Mhlas Isaf, Rhewl.

B. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi gwrthod cais cynllunio i newid defnydd tir amaethyddol i ardal cwrtil domestig a chodi garej a stordy adeilad ar wahân ym Mhlas Isaf, Rhewl.

C. Nid oedd gan yr Aelodau unrhyw wrthwynebiadau'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Newid defnydd tir i osod carafán sefydlog ar gyfer llety hanfodol i weithiwr fferm, gosod gwaith trin carthion newydd bach a gwaith cysylltiedig yn Y Gables, Llandyrnog.
2. Codi bynccer silwair yn Y Gables, Llandyrnog.

#### 6. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd copi o'r Asesu Anghenion ac Archwilio Mannau Agored Sir Ddinbych. Chadarnhawyd yr Aelodau fod yr asesiad o felwm Gymuned Llanynys yn gywir.

B. Derbyniwyd e-bost oddi wrth Mr Tim Towers, Rheolwr Risg ac Asedau Cyngor Sir Ddinbych, yn gofyn am restr o flaenora'u ffyrdd yn y gymuned sydd eisiau gwaith cyfalaf yn ystod y flwyddyn 2017/18. Penderfynwyd yr Aelodau ar y ffyrdd canlynol:-

1. Ffordd heibio Plas Einws yn Rhewl.
2. Ffordd heibio Penfforddwr yn Rhewl.
3. Ffordd rhwng Bodhyfryd a Telpyn yn Rhewl.

C. Derbyniwyd gwybodaeth Diwrnod Agoriadol Amlogfa newydd yn Llanelwy ar 17eg o Hydref 2016.

D. Derbyniwyd gwybodaeth gan y Cynghorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry ei fod yn bwriadu gwneud taith feicio efo Cynghorydd Sir Ddinbych Huw Williams i gasglu arian i gyfrannu tuag at "Defibrillator" yn Rhewl a gofynni'r am gyfraniad oddi wrth Gyngor Cymuned Llanynys. Penderfynwyd yr Aelodau am y rhodd a gofynni'r.

E. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

#### 7. UNRHYW FATER ARALL.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-

A: Mae yna ddwy gafna eisiau sylw ar y Llwybr Cyhoeddus ar y caeau rhwng Capel Rhewl a Clwydfro, Rhewl.

B. Problem moduron yn parcio a chulhau'r ffordd wrth Drivers Cottage yn Rhewl.

8. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Fawrth 8fed o Dachwedd 2016 yn Ysgol Gynradd, Rhewl am 7.30 o'r gloch.